



TACLO ISLAMOFFOBIA: ADNODD HAWLIAU PLANT AR GYFER YSGOLION UWCHRADD YNG NGHYMURU

COMISIYNYDD PLANT CYMRU



Tim Cymorth
Lleiafrifoedd Ethnig
& Ieuenctid Cymru

DANGOS Y
CERDYN
COCH I
HILIAETH

Trosolwg o'r Wers

Adnodd am hawliau a chydraddoldeb i Fwslimiaid ifanc yng Nghymru, a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru gyda chynghor gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ac EYST Cymru.

Pam mae'r adnodd yma wedi cael ei greu?

Prif rôl Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu hawliau a lles pobl ifanc yng Nghymru. Pan ddaeth Sally Holland yn Gomisiynydd Plant Cymru, y peth cynta wnaeth hi oedd siarad â phlant a phobl ifanc am eu profiadau mewn ymgynghoriad cenedlaethol o'r enw [Beth Nesa'](#). Bu dros 6000 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn Beth Nesa', a nododd y bobl ifanc hynny mai bwlio oedd eu prif bryder. Fe wnaeth y bobl ifanc hefyd godi pryderon sylweddol ynghylch Islamoffobia yng Nghymru, a sut mae hynny'n bygwth hawliau Mwslimiaid ifanc. Mae'r adnodd addysgu hwn yn galluogi pobl ifanc mewn ysgolion Uwchradd i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau'r holl bobl ifanc yng Nghymru, ac i ddeall bod gan Fwslimiaid ifanc sy'n byw yng Nghymru yr un hawliau â phobl ifanc eraill.

Elusen gwrth-hiliaeth yw Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, ac mae wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc ac athrawon ers 1996. Yng Nghymru, mae'r elusen yn cyflwyno gweithdai i fwy na 13,000 o ddisgyblion bob blwyddyn, yn ogystal â hyfforddi athrawon. Er gwaethaf hynny, mae pobl ifanc yn dal i ddioddef cam-drin hiliol bob dydd yng Nghymru. Mae ymgynghoriadau dan arweiniad Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi canfod bod 3 o bob 4 athro wedi delio gyda hiliaeth yn eu hysgol heb gael hyfforddiant na chefnogaeth priodol. Mae Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn cynnig hyfforddiant gwrth-hiliaeth i ysgolion ar ffurf gweithdai wyneb yn wyneb, ac maen nhw hefyd [wedi creu fideo](#) i helpu athrawon i hwyluso'r gwersi a amlinellir yn yr adnodd hwn.

Mae EYST Cymru yn elusen gofrestrdig a sefydlwyd yn 2005 i gefnogi pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig sy'n byw yn Abertawe, a'u helpu i gyflawni hyd eithaf eu potensial. Ers hynny, mae cylch gorchwyl yr elusen wedi ymledu i gefnogi pobl BME o bob oed sy'n byw ledled Cymru, trwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cwmpasu addysg, cyflogaeth, iechyd a diogelwch cymunedol. Mae gan EYST Cymru swyddfeydd a staff yn Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam. Arrianwyd EYST gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi y Rhaglen Ymgysylltu â BAME Cymru Gyfan.

Beth yw'r adnodd?

Mae'n cynnwys tair sesiwn, a luniwyd ar gyfer pobl ifanc 11-14 oed (Cyfnod Allweddol 3). Rydyn ni'n argymhell y sesiwn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9, ond mae tasgau sgaffaldio ac estyn wedi'u rhestru ar ddiwedd amlinelliad y sesiwn, fel bod modd addasu'r adnodd ar gyfer gwahanol oedrannau. Cafodd yr ysgolion fu'n treialu'r adnodd hwn fod pob sesiwn yn ffitio'n gyfforddus i wers awr. Mae pob sesiwn yn canolbwyntio ar hawl wahanol, fel maen nhw wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Gan ddefnyddio fideos a gweithgareddau rhyngweithiol, bydd y bobl ifanc yn archwilio sut mae pobl ifanc yn gyffredinol yng Nghymru yn profi eu hawliau, gan edrych yn benodol ar Fwslimiaid ifanc yng Nghymru. Gall y sesiynau gael eu cyflwyno fel sesiynau annibynnol, ond byddan nhw'n cael yr effaith fwyaf os cyflwynir y tair yn eu tro i ddatblygu'r dysgu. Mae'r canllawiau i athrawon i gyd-fynd â'r adnodd yn rhoi gwybod i athrawon beth yw'r ffordd orau o hwyluso'r gwaith o archwilio hawliau plant a deall a herio camwahaniaethu i bobl ifanc.

Bydd y cynllun yn datblygu'r canlynol:

- Gwybodaeth am hawliau plant a rôl Comisiynydd Plant Cymru;
- Gwybodaeth am Islam;
- Dealltwriaeth o gamwahaniaethu;
- Dealltwriaeth o'r hawl i fod â chrefydd;
- Sgiliau dadansoddi testunau yn y cyfryngau;
- Sgiliau adnabod a herio stereoteipiau negyddol.

Sut mae hyn yn cefnogi ysgolion?

Mae **CCUHP** yn cefnogi datblygiad **Pedwar Diben Dyfodol Llwyddiannus**. Mae'r sesiynau hyn yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau a byddan nhw'n helpu i ddatblygu **unigolion iach a hyderus sy'n gallu dysgu a ffynnu**. Mae'r gweithgareddau yn yr adnodd hwn hefyd yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogi fel **dinasyddion moesegol, gwybodus yn eu hysgol a'r gymuned ehangach**. Mae'r gweithgareddau hefyd yn datblygu canlyniadau sy'n ymwneud â lechyd a **Llesiant a'r Dyniaethau**, yn arbennig yng nghyswllt deall crefyddau. Ar hyd yr adnodd, mae cysylltiadau wedi'u nodi hefyd i ddatblygu canlyniadau'r **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd** a'r **Fframwaith Cymhwysedd Digidol**.

Mae'r adnodd hwn hefyd yn cefnogi ysgolion i ddatblygu eu hagwedd at **Lesiant** ac at **Ofal, Cefnogaeth ac Arweiniad**, fel sy'n ofynnol o dan **Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn 2017** [Adrannau 2.1; 4.1; 4.2; 4.3].

TACLO ISLAMOFFOBIA

Sesiwn	Ffocws ar yr Hawl	Adnodd Fideo	Canlyniadau
Un	Erthygl 2: Ni ddylai unrhyw blentyn na pherson ifanc gael eu trin yn wahanol oherwydd ble maen nhw'n byw, beth maen nhw'n ei gredu, yr iaith maen nhw'n ei siarad, neu oherwydd eu bod nhw'n fachgen neu'n ferch.	Profiadau o Islamoffobia	<ul style="list-style-type: none"> Gall y bobl ifanc ddisgrifio sut mae Erthygl 2 yn berthnasol i holl bobl ifanc Cymru Gall y bobl ifanc nodi sut mae camwahaniaethu'n bygwth hawliau Mwslimiaid ifanc yng Nghymru Mae'r bobl ifanc yn archwilio'r effeithiau ar unigolion pan na fydd Erthygl 2 yn cael ei gweithredu Mae'r bobl ifanc yn deall bod Comisiynydd Plant Cymru yn sefyll i fyny dros hawliau holl blant a phobl ifanc Cymru <p>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Llafaredd (Gwrando): ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau sy'n cael eu cyflwyno iddyn nhw Llafaredd (Cydweithio a Thrafod): cyflawni sawl rôl wahanol mewn trafodaeth grŵp <p>Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> 1.2 Dinasyddiaeth (Iechyd a Llesiant): adnabod stereoteipiau a'u heffaith mewn amrywiaeth o ffurfiau cyfryngau

TACLO ISLAMOFOBIA

Sesiwn	Ffocws ar yr Hawl	Adnodd Fideo	Canlyniadau
Dau	Erthygl 14: Mae gennych chi'r hawl i ymarfer eich crefydd eich hun, cyhyd â'ch bod chi ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.	Beth mae Islam yn ei olygu i chi Hobiau	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r bobl ifanc yn gwybod bod gan holl bobl ifanc Cymru yr hawl i'w crefydd eu hunain (Erthygl 14) Gall y bobl ifanc nodi ffeithiau am Islam Mae'r bobl ifanc yn archwilio sut gall crefydd fod yn rhan o hunaniaeth bersonol Mae'r bobl ifanc yn deall bod Comisiynydd Plant Cymru yn sefyll i fyny dros hawliau holl blant a phobl ifanc Cymru <p>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Llafaredd (Gwrando 09): ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau sy'n cael eu cyflwyno iddyn nhw Llafaredd (Cydweithio a Thrafod): cyflawni sawl rôl wahanol mewn trafodaeth grŵp <p>Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> 1.2 Dinasyddiaeth (Iechyd a Llesiant): adnabod stereoteipiau a'u heffaith mewn amrywiaeth o ffurfiau cyfryngau

Sesiwn	Ffocws ar yr Hawl	Adnodd Fideo	Canlyniadau
Tri	Erthygl 17: Mae gennych chi hawl i gael gwybodaeth onest gan y cyfryngau mewn ffurf y gallwch chi ddeall.	Portreadau yn y cyfryngau	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r bobl ifanc yn nodi ffeithiau a barn mewn testunau cyfryngau • Mae'r bobl ifanc yn dadansoddi i ba raddau mae testunau cyfryngau'n galluogi neu'n bygwth eu hawl i gyfryngau gonest • Mae'r bobl ifanc yn deall effaith stereoteipio negyddol ar unigolion • Mae'r bobl ifanc yn archwilio sut gallan nhw herio stereoteipio negyddol yn eu cymuned • Mae'r bobl ifanc yn deall bod Comisiynydd Plant Cymru yn sefyll i fyny dros hawliau holl blant a phobl ifanc Cymru <p>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darllen (Ymateb a Dadansoddi): gwahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a thueddiad/dadl • Darllen (Ymateb a Dadansoddi): nodi gwahanol ddehongliadau o ffeithiau a gwybodaeth a gwerthuso'u rhinweddau cymharol • Darllen (Ymateb a Dadansoddi): gwerthuso defnyddioldeb a dibynadwyedd testunau • Llafaredd (Cydweithio a Thrafod): adnabod amrywiaeth o opsiynau ar gyfer gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni nodau'r grŵp <p>Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> • 1.2 Dinasyddiaeth (Iechyd a Llesiant): adnabod stereoteipiau a'u heffaith mewn amrywiaeth o ffurfiau cyfryngau • 3.1 Cynhyrchu (Cynllunio, Casglu a Chwilio): gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth, cyfiawnhau barn a rhesymau dros ddewisiadau a llunio cyfeiriadau gan ddefnyddio dulliau priodol

Sesiwn Un		
Erthygl 2: Ni ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc gael eu trin yn wahanol oherwydd ble maen nhw'n byw, beth maen nhw'n ei gredu, yr iaith maen nhw'n ei siarad, neu oherwydd eu bod nhw'n fachgen neu'n ferch.		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
<p>Gall y bobl ifanc ddisgrifio sut mae Erthygl 2 yn berthnasol i holl bobl ifanc Cymru</p> <p>Gall y bobl ifanc nodi sut mae camwahaniaethu yn bygwth hawliau Mwslimiaid ifanc yng Nghymru</p> <p>Mae'r bobl ifanc yn archwilio'r effeithiau ar unigolion pan wrthodir gweithredu Erthygl 2</p> <p>Mae'r bobl ifanc yn deall bod Comisiynydd Plant Cymru yn sefyll i fyny dros hawliau holl blant a phobl ifanc Cymru</p> <p>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Llafaredd (Gwrandd): ystyried perthnasedd ac arwyddocâd 	<p>Cyflwyno:</p> <p>Esboniwch wrth y bobl ifanc eich bod chi'n mynd i sôn am hawliau pobl ifanc yng Nghymru: "pethau rydych chi eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel" .</p> <p>Dangoswch y fideo fer o'r enw Geiriau Cywir, Trefn Anghywir (Cymraeg, Saesneg).</p> <p>Esboniwch fod y fideo[s] yn trafod rhestr o hawliau o'r enw CCUHP. Dangoswch y poster Gwybod eich Hawliau yn y dosbarth ac esbonio ei fod yn rhestru'r hawliau sydd gan bobl ifanc.</p> <p>Datblygu:</p> <p>Arddangoswch Erthygl 2 yn y dosbarth fel bod y bobl ifanc yn gallu ei gweld, naill ai trwy ysgrifennu'r erthygl ar fwrdd gwyn neu ar daflenni dosbarthu.</p> <p>Erthygl 2: Ni ddylai unrhyw blentyn na pherson ifanc gael eu trin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw, ble maen nhw'n byw, beth maen nhw'n ei gredu, yr iaith maen nhw'n ei siarad, neu oherwydd eu bod nhw'n fachgen neu'n ferch.</p>	<p>Adnoddau angenrheidiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Geiriau Allweddol a Diffiniadau Fideo hawliau Fideo islamoffobia Poster Gwybod Eich Hawliau Taflen Ddosbarthu 1: Canllaw Adfyfrio Bydd athrawon yn gweld hi'n ddefnyddiol i sefydlu rheolau sylfaenol ar gyfer trafodaeth ar ddechrau'r sesiwn hon. Gallwch atgoffa'r dosbarth am eich rheolau trafod presennol neu ddefnyddio'r poster Gwybod Eich Hawliau i wneud hynny trwy esbonio bod yr hawliau hyn yn eiddo i bob disgybl bob amser yn eich ystafell ddosbarth chi. <p>Mae Erthygl 2 o CCUHP yn golygu bod gan bob person ifanc hawl i gael eu trin yn gyfartal, beth bynnag yw eu hunaniaeth. Gall yr athrawon helpu i hwyluso'r trafodaethau â'r taflenni ffeithiau Mynd i'r Afael â Hiliaeth mewn Ysgolion , sy'n cynnwys canllaw i'r derminoleg briodol wrth drafod hil. Gallwch chi hefyd rannu'r Geiriau Allweddol a Diffiniadau trwy eu</p>

Sesiwn Un		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
<p>gwybodaeth a syniadau sy'n cael eu cyflwyno iddyn nhw</p> <ul style="list-style-type: none"> Llafaredd (Cydweithio a Thrafod) cyflawni sawl rôl wahanol mewn trafodaeth grŵp <p>Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> 1.2 Dinasyddiaeth (Iechyd a Llesiant): adnabod stereoteipiau a'u heffaith mewn amrywiaeth o ffurfiau cyfryngau 	<p>Rhannwch y dosbarth yn barau/grwpiau bach a gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth yw ystyr yr hawl yma? Ydych chi'n meddwl bod pobl ifanc yn ein hysgol ni yn profi'r hawl yma? Beth allai atal pobl ifanc rhag cael yr hawl yma? <p>Ar ôl ystyriaeth, gofynnwch i'r dosbarth, fel unigolion, ateb yr ail gwestiwn drwy ateb YDW, NAC YDW neu FALLE. Gallan nhw ddangos eu hymateb trwy godi dwylo, trwy bleidleisio ar iPad, neu trwy symud i wahanol fannau yn yr ystafell.</p> <p>Trafodwch y canlyniadau. Gofynnwch beth allai atal pobl ifanc rhag profi Erthygl 2 a rhestrwch y pethau hynny fel dosbarth. Dylai'r bobl ifanc gael eu hannog i gynnig eu syniadau eu hunain, a allai gynnwys hiliaeth; camwahaniaethu; homoffobia; rhagfarn; tlodi; camwahaniaethu ar sail oed neu rywedd; anwybodaeth; camddealltwriaeth; agweddau pobl eraill; portreadau yn y cyfryngau. Gallwch chi gadw'r rhestr hon i'w defnyddio yn y sesiynau diweddarach.</p> <p>Archwilio:</p> <p>Esboniwch eich bod chi'n mynd i ddangos fideo o bobl ifanc yng Nghymru yn disgrifio sut dydyn nhw ddim bob amser yn profi Erthygl 2. Esboniwch fod y fideo'n cael ei gyflwyno gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru,</p>	<p>harddangos neu eu dosbarthu i'r bobl ifanc, fel eu bod yn gallu cyfeirio atynt ar hyd y sesiynau.</p> <p>Mae'r fideo yn dangos Mwslimiaid ifanc yng Nghymru yn disgrifio'r camwahaniaethu maen nhw'n ei ddioddef weithiau. Mae'n cael ei gyflwyno gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru. Yn y cyflwyniad mae Sally'n esbonio bod y fideo'n gyfle i bobl ifanc ddisgrifio eu profiadau yn eu geiriau eu hunain. Mae Sally'n esbonio bod y fideo yn cynnwys y gair hiliol sarhaus 'Paki'. Defnyddiodd pobl ifanc yn y fideo y gair yma i esbonio sut maen nhw'n teimlo wrth gael eu cam-drin yn hiliol â'r term hwn. Mae Sally hefyd yn esbonio bod hwn yn air cwbl annerbyniol i'w ddefnyddio am berson arall. Mae'r wybodaeth hefyd wedi'i nodi ar gyfer y bobl ifanc yn y Canllaw Adfyfrio. Dylai athrawon ategu'r neges hon. Fel o'r blaen, gallwch chi helpu i lywio sut mae hyn yn cael ei hwyluso â'r taflenni ffeithiau Mynd i'r Afael â Hiliaeth mewn Ysgolion.</p> <p>Ar ddiwedd y sesiwn gofalwch fod y bobl ifanc yn gwybod beth yw polisi a gweithdrefnau'r ysgol ynghylch hiliaeth</p>

Sesiwn Un		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
	<p>oherwydd mai ei gwaith hi yw sefyll i fyny dros hawliau holl blant a phobl ifanc Cymru.</p> <p>Dosbarthwch y Canllaw Adfyfrio a rhowch amser adfyfrio unigol i'r bobl ifanc gwblhau'r daflen hon. Gwahoddwch nhw i roi adborth i'r dosbarth os dymunant, ond gallwch chi roi gwybod iddyn nhw eich bod nhw'n gallu cadw eu hymateb yn breifat os yw hynny'n well ganddyn nhw.</p> <p>Dosbarthwch y posteri Gwybod Eich Hawliau i grwpiau bach, a gofynnwch iddyn nhw nodi pa hawliau gafodd eu bygwth neu eu tolchio gan yr ymddygiad hiliol a ddisgrifiwyd yn y fideo. Efallai byddwch chi am ddangos y fideo eto er mwyn gwneud hyn. Casglwch adborth gan y dosbarth ynghylch pa hawliau gafodd eu bygwth neu eu gwrthod.</p> <p>Grymuso:</p> <p>Gofynnwch i'r parau ystyried: beth wnewch chi wrth weld neu glywed hiliaeth?</p> <p>Efallai byddwch chi am annog y bobl ifanc i ystyried cyd-destunau ar-lein ac oddi ar-lein. Gwahoddwch adborth.</p> <p>Rhowch wybod i'r bobl ifanc beth yw polisi'r ysgol a'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am hiliaeth, yn ogystal â</p>	<p>a bwlio hiliol. Bydd yr arweiniad hwn ynghylch adnabod hiliaeth a rhoi gwybod amdano o gymorth i ysgolion, i sicrhau eu bod yn dilyn arfer gorau. Os oes gennych chi fersiynau o'ch polisïau sy'n hwylus i bobl ifanc, arddangoswch nhw yn y dosbarth wrth i chi gynnal y sesiynau hyn. Os nad oes gennych chi fersiwn hwylus o'r fath, er mwyn estyn y sesiynau hyn gallai'r bobl ifanc ddylunio eu posteri neu eu cyflwyniadau eu hunain, yn esbonio sut mae eich ysgol chi yn ymateb i hiliaeth.</p> <p>Gallai'r fideo beri i bobl ifanc fyfyrion ar eu profiadau eu hunain, yn enwedig os ydynt wedi profi hiliaeth. Cynigiwch gefnogaeth trwy sicrhau bod y bobl ifanc yn gwybod gyda phwy gallan nhw drafod unrhyw bryderon yn yr ysgol. Gallai fod o gymorth hefyd i rannu'r rhif Childline, 0800 1111, rhag ofn bod pobl ifanc am siarad yn gyfrinachol.</p> <p>Gall pobl ifanc ac oedolion hefyd gysylltu â gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor y Comisiynydd Plant os byddan nhw'n teimlo'n nad yw hiliaeth neu gamwahaniaethu arall yn derbyn sylw</p>

Sesiwn Un		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
	<p>ble mae cymorth ar gael os byddan nhw'n gweld neu'n profi hiliaeth. Gofalwch fod y bobl ifanc yn gwybod sut mae gwneud hyn yn eich ysgol chi, a gallwch chi hefyd arddangos rhif ffôn ChildLine, 0800 1111, rhag ofn eu bod am gael cefnogaeth gyfrinachol.</p> <p>Dywedwch wrth y bobl ifanc eu bod nhw hefyd yn gallu cysylltu â gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor Sally os byddan nhw'n poeni am hiliaeth. Rhannwch y rhif Rhadffôn 0808 801 1000 a'i arddangos.</p>	<p>priodol. Rhannwch ac arddangoswch y rhif rhadffôn 0808 801 1000.</p>

Sesiwn Dau		
Erthygl 14: Mae gennych chi hawl i ymarfer eich crefydd eich hun, cyhyd â'ch bod chi ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
<p>Mae'r bobl ifanc yn gwybod bod gan holl bobl ifanc Cymru hawl i'w crefydd eu hun (Erthygl 14)</p> <p>Mae'r bobl ifanc yn gallu adnabod ffeithiau am Islam</p> <p>Mae'r bobl ifanc yn archwilio sut gall crefydd fod yn rhan o hunaniaeth bersonol</p> <p>Mae'r bobl ifanc yn deall bod Comisiynydd Plant Cymru yn sefyll i fyny dros hawliau holl blant a phobl ifanc Cymru</p> <p>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llafaredd (Gwrandio 09): ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau sy'n cael eu cyflwyno iddyn nhw 	<p>Cyflwyno:</p> <p>Atgoffwch y bobl ifanc mai'r hawl i gael eu trin yn gyfartal oedd ffocws y sesiwn ddiwethaf. Esboniwch y byddwch chi'n canolbwyntio ar hawl arall yn y sesiwn hon:</p> <p>Erthygl 14: Mae gennych chi hawl i ymarfer eich crefydd eich hun, cyhyd â'ch bod chi ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Arddangoswch yr hawl hon yn y dosbarth.</p> <p>Esboniwch wrth y disgyblion eich bod chi'n mynd i wneud gweithgaredd grŵp am hunaniaeth. Gofynnwch i'r disgyblion sefyll mewn cylch a dywedwch eich bod chi'n mynd i ddarllen cyfres o osodiadau. Os yw'r gosodiad yn un GWIR, mae angen i'r unigolion gamu i mewn i'r cylch. Os yw'n ANWIR, byddan nhw'n aros yn yr un lle.</p> <p>Darllenwch y gosodiadau canlynol, a gallwch chi ychwanegu eich rhai eich hun, neu wahodd y bobl ifanc i ychwanegu eu rhai nhw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Does gen i ddim crefydd • Rydw i'n Gymro • Rydw i'n cefnogi tîm pêl-droed [gallech chi enwi eich tîm lleol] • Rydw i'n mwynhau cerddoriaeth 	<p>Adnoddau angenrheidiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fideo Hobïau • Fideo Beth mae Islam yn ei olygu i fi • Taflen ddsbarthu, Islam: Faint ydw i'n gwybod? <p>Yn ystod y gweithgaredd cyflwyno gallwch chi wneud sylwadau ar beth sy'n digwydd i'r grŵp. Sylwch sut mae'r grŵp yn ymrannu, er enghraifft, efallai byddwch chi am sylwi faint o bobl ifanc sydd â rhywbeth penodol yn gyffredin (ydy'r nifer yn fawr neu'n fach) ac oes gan rai ohonynt sawl peth yn gyffredin. Efallai y byddwch chi am sylwi ar osodiadau sy'n ymddangos yn arbennig o bwysig i'ch grŵp, neu'r ymateb i'r ymarferiad fel grŵp neu unigolion.</p> <p>Mae cyflwyniad Sally i'r fideo hobïau yn atgoffa'r bobl ifanc fod gan bob person ifanc rywbeth yn gyffredin ag eraill a phethau sy'n eu gwneud yn unigryw. Efallai byddwch chi am ategu hyn yn eich trafodaeth ddsbarth.</p>

Sesiwn Dau		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
<p>Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> • 1.2 Dinasyddiaeth (lechyd a Llesiant): adnabod stereoteipiau a'u heffaith mewn amrywiaeth o ffurfiau cyfryngau 	<ul style="list-style-type: none"> • Rydw i'n fachgen • Rydw i'n siarad mwy nag un iaith • Rydw i wedi bod i eglwys • Rydw i'n mwynhau celf • Rydw i'n dathlu ar ddydd Nadolig • Rydw i wedi bod i fosg • Rydw i'n gwyllo teledu [gallech chi newid hyn am enw hoff raglen] • Rydw i'n chwarae gêmâu cyfrifiadur [gallech chi newid hyn am enw gêm boblogaidd] <p>Ar ôl y gweithgaredd gwahoddwch y bobl ifanc i fyfrio arno, naill ai mewn grwpiau bach neu fel dosbarth cyfan, gan ddefnyddio'r cwestiynau canlynol: Sut deimlad oedd bod â phethau'n gyffredin â phobl eraill? Sut deimlad oedd bod yn wahanol i bobl eraill? P'un o'r gosodiadau oedd y rhan bwysicaf o'ch hunaniaeth? Rhowch adborth fel grŵp.</p> <p>Datblygu:</p> <p>Esboniwch eich bod chi'n mynd i ddangos fideo o bobl ifanc yng Nghymru yn siarad am eu hobiau a'u diddordebau, gyda chyflwyniad gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru.</p> <p>Chwaraewch y fideo Hobiau a gwahoddwch y dosbarth i nodi ar bapur unrhyw beth sydd ganddyn nhw'n gyffredin ag unrhyw bobl ifanc ar y fideo wrth iddyn nhw wyllo.</p>	<p>Efallai bydd eich dosbarth am drafod yr hawl i fod â chrefydd [Erthygl 14] a beth mae hynny'n ei olygu, yn arbennig ail ran yr Erthygl. Mae'r hawl hon yr un mor berthnasol i blant o bob crefydd, a gallai fod yn ddefnyddiol annog y bobl ifanc i feddwl am grefyddau eraill, nid dim ond Islam. Efallai bydd y bobl ifanc am egluro enghreifftiau o sut dylai arferion crefyddol ddim atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau, enghraifft o hynny fyddai na ddylai unrhyw grefydd atal plentyn rhag cael eu hawl i addysg.</p> <p>Gall pawb yn eich dosbarth gwblhau'r daflen weithgaredd Islam: Faint rydw i'n ei wybod?, p'un a oes ganddyn nhw lawer o wybodaeth am Islam neu ychydig. Ddylai disgyblion sy'n Fwslimiaid eu hunain ddim bod yn ffocws penodol ar gyfer ateb cwestiynau, ond os daw'n amlwg eu bod yn dymuno rhannu eu gwybodaeth, mae hwn yn gyfle gwerthfawr iddyn nhw fedru trafod beth mae eu crefydd yn ei olygu iddyn nhw. Efallai byddwch chi am eu galluogi nhw i ateb yr un cwestiwn gafodd ei ofyn i'r bobl ifanc yn y fideo: beth mae Islam yn ei olygu i chi?</p>

Sesiwn Dau		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
	<p>Gofynnwch am adborth.</p> <p>Esboniwch mai un peth oedd gan y bobl ifanc yn y fideo yn gyffredin â'i gilydd oedd eu bod nhw'n Fwslimiaid ifanc yn byw yng Nghymru. Atgoffwch y disgyblion am</p> <p>Erthygl 14: Mae gennych chi hawl i ymarfer eich crefydd eich hun, cyhyd â'ch bod chi ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.</p> <p>Dosbarthwch y daflen: Faint rydw i'n ei wybod am Islam? a gofynnwch i'r bobl ifanc ei llenwi. Rhowch sicrwydd iddyn nhw fod dim ots ydy'r atebion yn gywir neu'n anghywir – mae'n gyfle iddyn nhw weld faint maen nhw'n gwybod eu hunain</p> <p>Dangoswch y fideo fer: Beth mae Islam yn ei olygu i fi?</p> <p>Rhannwch y bobl ifanc yn barau a gofynnwch iddyn nhw fyfyrion ar eu hatebion, fydden nhw'n newid unrhyw atebion roeson nhw ar ôl gweld y fideo? Gwahoddwch nhw i rannu os ydyn nhw wedi newid unrhyw atebion.</p> <p>Grymuso:</p> <p>Atgoffwch y bobl ifanc eich bod chi wedi archwilio hunaniaeth a sut gall Islam fod yn elfen bwysig o hunaniaeth rhai pobl ifanc.</p>	<p>Mae hyn hefyd yn gyfle i edrych ar y gyfatebiaeth â chrefyddau eraill. Gallwch chi esbonio wrth y dosbarth bod yr atebion gwir ac anwir cywir ar y daflen ddosbarthu am Islam hefyd yn berthnasol i Gristnogaeth ac Iddewiaeth. Efallai byddwch chi am esbonio bod holl grefyddau'r byd yn dilyn yr egwyddor o drin pobl eraill fel byddech chi am iddyn nhw eich trin chi, gallwch chi esbonio mai enw arall sy'n cael ei ddefnyddio ar hynny weithiau yw'r Rheol Aur.</p> <p>Efallai bydd y bobl ifanc am godi rhai o'r rhesymau dros gamddeall Islam. Gallwch chi esbonio y byddwch chi'n canolbwyntio ar bortreadau a stereoteipiau yn y cyfryngau yn y wers nesaf, fydd yn gyfle iddyn nhw archwilio hyn ymhellach. Gallwch chi hefyd eu hatgoffa am y gweithgaredd wnaethoch chi ar ddechrau sesiwn un, pan fuoch chi'n rhestru'r rhesymau pam gallai pobl ifanc beidio â phrofi eu hawl i gael eu trin yn gyfartal (Erthygl 2). Gallwch chi rannu'r rhestr eto. Oes unrhyw syniadau sydd gan y bobl ifanc am gamddeall Islam yn adlewyrchu'r syniadau oedd gennych chi bryd hynny?</p>

Sesiwn Dau		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
	<p>Gan ddefnyddio'r syniadau sy'n cael eu trafod yn y sesiwn hon, gofynnwch i'r disgyblion ateb yr un cwestiwn a ofynnwyd yn y fideo, beth mae Islam yn ei olygu i chi?</p> <p>Efallai byddwch chi am wahodd y dosbarth i nodi eu hatebion ar ddarn mawr o bapur neu mewn arddangosfa.</p>	

Sesiwn Tri		
Erthygl 17: Mae gennych chi hawl i gael gwybodaeth onest gan y cyfryngau mewn ffurf y gallwch chi ddeall.		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
<p>Mae'r bobl ifanc yn adnabod ffeithiau a barn mewn testunau cyfryngau</p> <p>Mae'r bobl ifanc yn dadansoddi i ba raddau mae testunau cyfryngau yn gwireddu neu'n bygwth eu hawl i gyfryngau gonest</p> <p>Mae'r bobl ifanc yn deall effaith stereoteipio negyddol ar unigolion</p> <p>Mae'r bobl ifanc yn archwilio sut gallan nhw herio stereoteipio negyddol yn eu cymuned</p> <p>Mae'r bobl ifanc yn deall bod Comisiynydd Plant Cymru yn sefyll i fyny dros hawliau holl blant a phobl ifanc Cymru</p>	<p>Cyflwyno:</p> <p>Dosbarthwch y daflen ddsbarthu: Erthygl o'r Cyfryngau am Bobl Ifanc. Portread o bobl ifanc sydd yma. Gofynnwch i barau ystyried eu hymateb cychwynnol i'r erthygl. Sut mae'r portread yma'n gwneud iddyn nhw deimlo? Rhannwch yr ymatebion fel dosbarth.</p> <p>Arddangoswch Erthygl 17: Mae gennych chi hawl i gael gwybodaeth onest gan y cyfryngau mewn ffurf y gallwch chi ddeall.</p> <p>Gofynnwch i'r parau drafod ydy'r erthygl ar y daflen yn atal neu'n cefnogi eu hawl i gyfryngau gonest. Rhannwch syniadau fel grŵp.</p> <p>Datblygu:</p> <p>Fel dosbarth rydych chi wedi edrych ar erthygl sy'n dangos stereoteip negyddol o bobl ifanc. Esboniwch mai stereoteipio yw grwpio unigolion gyda'i gilydd a'u barnu. Gofynnwch i'r dosbarth ystyried pa grwpiau eraill o bobl maen nhw'n meddwl allai gael eu stereoteipio yn y cyfryngau.</p>	<p>Adnoddau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fideo Portreadau yn y Cyfryngau • Taflen Ddsbarthu 3: Erthygl o'r Cyfryngau am Bobl Ifanc. • Taflen Ddsbarthu 4: Sut mae Sylwi ar Stereoteipio yn y Cyfryngau • Fflipsiart / darn mawr glân o bapur a phinnau ysgrifennu • Taflen Ddsbarthu 5: Gwerthuso <p>Mae'r bobl ifanc yn dechrau'r sesiwn hon trwy ystyried sut gallan nhw gael eu stereoteipio'n negyddol yn y cyfryngau. Yna byddan nhw'n cymharu eu hymateb i hynny ag ymatebion Mwslimiaid ifanc yng Nghymru i'r stereoteipio negyddol ar Fwslimiaid sy'n digwydd yn y cyfryngau.</p> <p>Mae Taflen Ddsbarthu Pedwar yn gyfle i bobl ifanc archwilio sut mae'r cyfryngau'n stereoteipio Mwslimiaid mewn ffordd negyddol ac yn modelu dadansoddiad o erthygl yn y cyfryngau. Yna gall y bobl ifanc gymhwyso'u dadansoddiad eu hunain trwy ddefnyddio'r cwestiynau arweiniol</p>

Sesiwn Tri		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
<p>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darllen (Ymateb a Dadansoddi): gwahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a thueddiad/dadl • Darllen (Ymateb a Dadansoddi): nodi gwahanol ddehongliadau o ffeithiau a gwybodaeth a gwerthuso'u rhinweddau cymharol • Darllen (Ymateb a Dadansoddi): gwerthuso defnyddioldeb a dibynadwyedd testunau • Llafaredd (Cydweithio a Thrafod): adnabod amrywiaeth o opsiynau ar gyfer gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni nodau'r grŵp <p>Fframwaith Cymhwysedd Digidol</p> <ul style="list-style-type: none"> • 1.2 Dinasyddiaeth (Iechyd a Llesiant): 	<p>Esboniwch wrth y dosbarth fod llawer o Fwslimiaid ifanc yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu stereoteipio'n negyddol yn y cyfryngau. Esboniwch eich bod chi'n mynd i ddangos ffilm lle mae bpbl ifanc yn esbonio sut mae hynny'n gwneud iddyn nhw deimlo.</p> <p>Dangoswch y ffilm Portreadau yn y Cyfryngau. Gofynnwch i'r dosbarth ystyried effeithiau stereoteipio yn y cyfryngau ar y bobl ifanc yn y ffilm. Efallai byddwch chi am ofyn i'r bobl ifanc gymharu'r atebion yn y ffilm â'u hymatebion eu hunain i stereoteipiau negyddol o bobl ifanc.</p> <p>Archwilio:</p> <p>Dosbarthwch y daflen ddosbarthu: Sut mae sylwi ar stereoteipio yn y cyfryngau. Fel dosbarth neu mewn grwpiau darllenwch drwy'r erthygl enghreifftiol a'r sylwadau.</p> <p>Gofynnwch i grwpiau bach neu barau anodi'r ail ddyfyniad gan ddefnyddio'r awgrymiadau ar eu taflen.</p> <p>Casglwch adborth gan y dosbarth ynghylch y nodweddion welson nhw. I ba raddau mae'r erthygl yma'n cefnogi neu'n bygwth Erthygl 17: eu hawl i wybodaeth onest gan y cyfryngau?</p> <p>Fel gweithgaredd estyn gallwch chi hefyd rannu'r erthygl lân heb gwestiynau arweiniol i'r bobl ifanc ei hanodi eu hunain.</p>	<p>ar yr ail erthygl. Fel tasg estyn mae hefyd erthygl lân heb gwestiynau arweiniol y gall pobl ifanc ei dadansoddi'n annibynnol. Efallai bydd athrawon yn cael bod cyfeirio at ein harweiniad fideo: Trafod Hiliaeth yn yr Ystafell Ddosbarth yn ddefnyddiol.</p> <p>Mae'r gweithgaredd grymuso yn gyfle i bobl ifanc fyfyrion ar yr holl wahanol weithgareddau a dysgu ar hyd y sesiynau. Gallwch chi annog y bobl ifanc i feddwl am eu syniadau eu hunain, ond efallai byddwch chi am awgrymu rhai ar sail canlyniadau dysgu'r sesiynau.</p> <p>Mae'r gwerthusiad yn gyfle i'r dosbarth fyfyrion ar eu dysgu a gall yr athrawon werthuso ac adfyfyrion ynghylch a gyflawnwyd y canlyniadau.</p> <p>Hefyd gall y Comisiynydd Plant a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ddefnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i wella a chynllunio ein hadnoddau dysgu. Anfonwch y taflenni gorffenedig at: Comisiynydd Plant Cymru, Tŷ Ystumllwynarth, Ffordd Ffenics, Llansamlet, Abertawe SA7 9FS</p>

Sesiwn Tri		
Canlyniadau	Gweithgareddau	Canllawiau i Athrawon
<p>adnabod stereoteipiau a'u heffaith mewn amrywiaeth o ffurfiau cyfryngau</p> <ul style="list-style-type: none"> • 3.1 Cynhyrchu (Cynllunio, Casglu a Chwilio): gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth, cyfiawnhau barn a rhesymau dros ddewisiadau a llunio cyfeiriadau gan ddefnyddio dulliau priodol 	<p>Grymuso:</p> <p>Esboniwch wrth y dosbarth eich bod, trwy'r fideos a'r gweithgareddau, wedi archwilio enghreifftiau o adegau pan nad yw Mwslimiaid ifanc yng Nghymru yn derbyn eu hawliau.</p> <p>Gofynnwch i'r dosbarth ystyried sut gallwch chi ddelio gyda hynny. Beth allwch chi wneud fel ysgol? Beth all pobl ifanc ei wneud fel unigolion?</p> <p>Efallai byddwch chi am gofnodi syniadau'r bobl ifanc ar ddwy daflen arddangos: "Fel ysgol, gallwn ni..."; "Galla i..." Anogwch y bobl ifanc i feddwl yn eang ac ystyried sut gall eu gweithredoedd ddylanwadu arnyn nhw eu hunain, eu teulu, eu ffrindiau a'u cymuned. Gallwch chi ddefnyddio'u syniadau i lywio camau gweithredu at y dyfodol i chi fel ysgol.</p> <p>Dosbarthwch y daflen Werthuso i'r dosbarth, ac anfonwch y ffurflenni gorffenedig at: Comisiynydd Plant Cymru, Tŷ Ystumllwynarth, Ffordd Ffenics, Llansamlet, Abertawe SA7 9FS, os gwelwch yn dda.</p>	<p>Hefyd gallwch chi roi gwybod i ni am eich profiadau gyda'r adnodd hwn ar Twitter @complantcymru</p>

Cyfleoedd i Wahaniaethu

Tasgau Sgaffaldio

Sesiwn Un

- Gallwch chi roi arweiniad o ran cwestiynau a phwyntiau trafod allweddol trwy ddefnyddio adnodd PowerPoint. Creodd Ysgol Pentrehafod [y PowerPoint yma](#) i arwain y tair sesiwn gyda phobl ifanc.
- Yn hytrach na rhoi'r poster o holl hawliau plant i'r bobl ifanc ei ystyried, dewiswch ambell hawl o'r poster, e.e. Erthyglau 2, 12, 14, 15, 28, 29, 30, 31. Rhwng un erthygl i bâr/grŵp bach a gofynnwch i'r bobl ifanc ystyried a yw'r hawl benodol hon wedi cael ei gwrthod i'r bobl ifanc yn y fideo. Gallwch chi lawrlwytho ac argraffu posteri hawliau unigol trwy ddefnyddio ein pecyn symbolau CCUHP.

Sesiwn Dau

- I gefnogi'r bobl ifanc i nodi beth maen nhw'n ei wybod am Islam, gallech chi ddatblygu offeryn map-meddwl iddyn nhw ei gwblhau yn ystod y sesiwn. Creodd Ysgol Dŵr-y-Felin yng Nghastell-nedd y [templed map-meddwl](#) hwn i bobl ifanc ei gwblhau yn ystod y sesiwn.
- Cyfeiriwch at y daflen geiriau allweddol a diffiniadau a'u harddangos/dosbarthu, fel bod y bobl ifanc yn gallu cyfeirio atyn nhw ar hyd y sesiwnau.

Sesiwn Tri

- Yn hytrach na gofyn i bobl ifanc fynd ati'n annibynnol i anodi'r ail ddyfyniad yn Nhaflen Ddosbarthu 5: Sut mae Sylwi ar Stereoteipio yn y Cyfryngau, anodwch hi fel dosbarth cyfan, neu arweiniwch grŵp bach trwy'r broses o lenwi'r daflen hon ar y cyd.
- Defnyddiwch y daflen geiriau allweddol a diffiniadau i wirio dealltwriaeth o eiriau a chysyniadau allweddol.

Tasgau Estyn

Sesiwn Un

- Cyflwynwch y cysyniad bod dim modd gwahanu hawliau plant. Ystyr hynny yw bod gwrthod un hawl bob amser yn effeithio ar hawliau eraill. Gofynnwch i'r bobl ifanc ystyried sut mae gwrthod Erthygl 2 i blentyn neu berson ifanc, fel y gwelwyd yn y fideos, yn dangos bod dim modd gwahanu hawliau plant oddi wrth ei gilydd. Gall y bobl ifanc ddefnyddio'r posteri hawliau plant i restru'r hawliau sy'n cael eu gwrthod o ganlyniad i wrthod Erthygl 2 yn y fideos.

Sesiwn Dau

- Gan ddefnyddio blwch llyfrau crefyddau'r byd neu ffynonellau ar y rhynggrwyd, gwahoddwch y bobl ifanc i ymchwilio ymhellach i Islam. Gallai'r bobl ifanc greu arddangosfa neu gyflwyniad ynghylch Islam.
- Gan ddefnyddio blwch llyfrau crefyddau'r byd neu ffynonellau ar y rhynggrwyd, gwahoddwch y bobl ifanc i gymharu Islam a Christnogaeth. Beth sy'n gyffredin i'r ddwy grefydd? Pa wahaniaethau sydd rhyngddyn nhw?

Sesiwn Tri

- Dosbarthwch y drydedd erthygl, sy'n lân, o Daflen Ddosbarthu 5: Sut mae Sylwi ar Stereoteipio yn y Cyfryngau i'r bobl ifanc ei hanodi'n annibynnol heb gwestiynau arweiniol.
- Heriwch y bobl ifanc i gael hyd i enghraifft/enghreiffiau o stereoteipio negyddol ar-lein eu hunain. Gallai'r rhain fod ar ffurf postiad cyfryngau cymdeithasol, neu erthygl yn y cyfryngau. Yna gallai'r bobl ifanc gyflwyno'u dadansoddiad o'r enghreifftiau hyn mewn grwpiau bach neu i'r dosbarth cyfan.
- Gwahoddwch y bobl ifanc i ail-ysgrifennu un o'r erthyglau yn Nhaflen Ddosbarthu 5 heb ddefnyddio stereoteipiau negyddol na thueddiadau. Gall y bobl ifanc rannu eu fersiynau di-duedd gyda'i gilydd. Gallai hyn gael ei estyn ymhellach i gynnal trafodaeth ynghylch pam mae pobl ifanc yn meddwl bod allfeydd cyfryngau yn dewis defnyddio stereoteipio neu duedd negyddol.